



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Cais am Sylwadau ar y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Hydref 2018



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Datblygwyd mewn ymgynghoriad ag Adran
Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion
Gwledig Gogledd Iwerddon



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



© Hawlfraint y Goron 2018

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f.3. Er mwyn gweld y drwydded hon www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

ViewsonAHDB@defra.gsi.gov.uk.

www.gov.uk/defra

Contents

Rydym am glywed eich barn	4
Pam rydym yn gofyn am eich barn nawr?	5
AHDB	5
Gweithgareddau cyfredol AHDB	6
Byrddau ardoll eraill a modelau cymorth i'r diwydiant	8
Amdanoch chi	10
Adran 1: Dibenion a gweithgareddau AHDB.....	14
Adran 2: Llywodraethu	17
Adran 3: Cyllid.....	20
Adran 4: Casglu'r ardoll.....	24

Rydym am glywed eich barn

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn gorff ardoll statudol yn y DU a ariennir gan ffermwyr, tyfwyr ac eraill yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n darparu rhai gwasanaethau pwysig i sectorau diwydiannol gwahanol a rhannau gwahanol o'r DU.

Rydym yn ceisio eich barn er mwyn ein helpu i ystyried yr angen parhaus am AHDB a'r ardoll statudol, a'r hyn y dylai'r Bwrdd ei gyflawni. Rydym am glywed barn talwyr yr ardoll a'r rhai nad ydynt yn ei thalu yn y DU. Bydd y cais am sylwadau ar agor am 10 wythnos rhwng dydd Gwener 31 Awst a chanol nos ddydd Gwener 9 Tachwedd 2018.

Rhowch eich barn ar-lein yn <https://consult.defra.gov.uk/farming/views-on-ahdb>. O'r wefan honno gallwch lawrlwytho fersiynau Saesneg a Chymraeg o'r holiadur ar ffurf PDF, a ffurflenni ymateb Saesneg a Chymraeg ar ffurf OpenDocument (gweler "Cysylltiedig" ar y wefan).

Os na allwch ymateb ar-lein, gallwch wneud cais am gopi o'r arolwg drwy anfon neges e-bost i ViewsonAHDB@defra.gsi.gov.uk. Gall ymholiadau ac arolygon wedi'u cwblhau hefyd gael eu he-bostio i'r cyfeiriad hwn.

Fel arall, gallwch ofyn am gopi caled o'r holiadur drwy ysgrifennu at:

Views on AHDB
Defra - Future Farming
2nd Floor SE
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Os ydych yn defnyddio technoleg gynorthwyol (megis darllenydd sgrin) a bod angen fersiwn o'r ddogfen hon arnoch mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch neges e-bost i ViewsonAHDB@defra.gsi.gov.uk er mwyn gofyn am y fformat sydd ei angen arnoch. Bydd yn ein helpu os nodwch pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei defnyddio.

Byddwn yn ystyried pob ymateb a dderbynnir cyn canol nos ar 9 Tachwedd a byddwn yn llunio crynodeb o'r ymatebion ar ddechrau 2019.

Pam rydym yn gofyn am eich barn nawr?

Mae AHDB wedi bodoli ers deng mlynedd ac yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd rhai newidiadau sylweddol yn y diwydiant a'r byd ehangach ac mae AHDB bellach yn gorff mwy cydgysylltiedig, strategol ac effeithlon. Disgwylir i'r broses newid barhau.

Yn gynharach eleni yn Lloegr nododd papur ymgynghori, sef 'Health and Harmony: the future for food, farming and the environment in a Green Brexit', nifer o ffyrdd posibl o sicrhau dyfodol mwy ffyniannus i'r sector ffermio yn Lloegr. Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Alban ei 'Future Strategy for Scottish Agriculture' a lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus, sef 'Stability and Simplicity: Proposals for Rural Funding Transition'. Ar 10 Gorffennaf lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgynghoriad cyhoeddus 'Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru'. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), gyda chydweithrediad a mewnbwn amrywiaeth eang o randdeiliaid o'r sector bwyd, y sector ffermio a'r sector amgylcheddol, wedi datblygu fframwaith polisi posibl er mwyn helpu i lywio'r drafodaeth ynghylch trefniadau cymorth yn y dyfodol. Bydd y papur hwnnw yn sail i waith ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid y bydd DAERA yn ymgymryd ag ef yn ddiweddarach eleni.

Ledled y DU rydym am i amaethyddiaeth a garddwriaeth ffynnu fel diwydiannau cystadleuol, hyfedr sy'n fuddsoddwyr mawr.

AHDB

Crëwyd AHDB yn 2008 yn dilyn adolygiad helaeth o'r cyrff ardoll a'i rhagflaenodd¹. Mae'r Bwrdd yn gwasanaethu chwe sector amaethyddol a garddwriaethol, gan ddarparu lefelau gwahanol o wasanaeth i Loegr, Prydain Fawr neu'r DU. Rhyngddynt, mae sectorau AHDB yn cwmpasu mwy na 70% o gyfanswm allbwn amaethyddol a garddwriaethol y DU. Mae AHDB yn codi tua £60 miliwn y flwyddyn mewn ardollau statudol, ac mae'n rhaid i ardoll a godir mewn un sector gael ei wario er budd y sector hwnnw yn unig. Dangosir yr incwm o'r ardoll yn ôl sector yn y tabl isod. Mae AHDB hefyd yn cael incwm, nad yw'n dod o'r ardoll, o tua £10 miliwn y flwyddyn o grantiau'r UE a ffioedd am wasanaethau a chan ei is-gwmni masnachol, Meat and Livestock Commercial Services Ltd (MLCSL). Mae AHDB yn cyflogi tua 430 o aelodau o staff, gyda thua 100 arall yn MLCSL².

¹ 'Review of the Agricultural and Horticultural Levy Bodies – Final Report October 2005'

<https://ahdbstage.ahdbdigital.org.uk/docs/levy-radcliffe-reviewOct05.pdf> Rhagflaenwyr AHDB oedd Cyngor Tatws Prydain, y Comisiwn Cig a Da Byw, y Cyngor Datblygu Llaeth, y Cyngor Datblygu Garddwriaeth a'r Awdurdod Ydau Cartref.

² Ffigurau o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon AHDB 2017/18.

Incwm AHDB o'r ardoll yn 2017/18, nifer amcangyfrifedig talwyr yr ardoll a chyfraniadau ardoll yn ôl sector³

	Incwm o'r ardoll 2017/18 £ miliwn	Nifer amcangyfrifedig talwyr yr ardoll ('000s)	Cyfraniad cyfartalog mewn £ fesul talwr ardoll amcangyfrifedig
		(gan gynnwys cynhyrchwyr, tyfwyr a phroseswyr)	(gan gynnwys cynhyrchwyr, tyfwyr a phroseswyr)
Porc yn Lloegr	9.2	21.6	420
Cig eidion a chig oen yn Lloegr	16.7	85	200
Y Sector Llaeth ym Mhrydain Fawr	7.7	11.7	660
Garddwriaeth ym Mhrydain Fawr	7.9	1.3	5,940
Tatws ym Mhrydain Fawr	6.1	2.4	2,500
Ydau a hadau olew yn y DU	12.7	61.6	210

Nid yw AHDB yn cwmpasu'r holl sectorau da byw a garddwriaeth ledled y DU Mae gwybodaeth am Quality Meat Scotland, Hybu Cig Cymru a Chomisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon ar gael isod.

Gweithgareddau cyfredol AHDB

Nod cyffredinol AHDB, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â thalwyr yr ardoll, yw “ysbrydoli ein ffermwyr, ein tyfwyr a'n diwydiant i lwyddo mewn byd sy'n newid yn gyflym”. Ei weledigaeth yw sicrhau diwydiant bwyd a ffermio o'r radd flaenaf a ysbrydolir gan y goreuon ac sy'n cystadlu â'r goreuon”.⁴

Mae Strategaeth AHDB ar gyfer 2017 – 2020⁵ yn canolbwyntio ar weithio'n “gallach”, gan rannu arfer gorau ac ysgogi effeithlonrwydd. Mae'n pennu pedair blaenoriaeth strategol, sef:

1. Ysbrydoli amaethyddiaeth a garddwriaeth ym Mhrydain i fod yn fwy cystadleuol a chydnerth

Mae hyn yn cwmpasu ehangu'r gwaith o feincnodi perfformiad er mwyn llywio'r ffordd y mae busnesau yn y DU yn cymharu â'r goreuon yn rhyngwladol a pharhau i ddiogelu cynydu er mwyn ategu cystadleurwydd.

³ Mae'r tabl yn cynrychioli nifer talwyr yr ardoll fesul sector, y mae rhai ohonynt yn talu'r ardoll dros fwy nag un sector. Dylid nodi hefyd fod y ffigurau a ddangosir ar gyfer 'Cyfraniad cyfartalog fesul talwr ardoll' yn cuddio gwahaniaethau mawr o ran yr ardollau a delir, gyda rhai busnesau mawr iawn yn gwneud cyfraniadau ardoll mawr a chynhyrchwyr llai o faint eraill yn talu symiau llawer llai. Amcangyfrifwyd nifer talwyr yr ardoll gan AHDB yn 2015. Daw'r ffigurau ar gyfer incwm o'r ardoll o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon AHDB 2017/18.

⁴ <https://ahdb.org.uk/about/default.aspx>

⁵ <https://ahdb.org.uk/corporate-strategies>

Er enghraifft:

- **Farmbench** - gwasanaeth meincnodi fferm gyfan er mwyn galluogi ffermwyr i wneud penderfyniadau hyddysg drwy gymharu data perfformiad eu busnes â busnesau tebyg
- **Ymestyn Awdurdodiadau ar gyfer Mân Ddefnyddiau (EAMUs)**, sy'n sicrhau bod cynhyrchion diogelu planhigion ar gael i'w defnyddio ar yr ystod ehangaf bosibl o gnydau

2. Cyflymu arloesi a thwf cynhyrchiant drwy waith Ymchwil a Datblygu cydgysylltiedig a Chyfnewid Gwybodaeth

Yn ystod 2018/19 bydd AHDB yn buddsoddi £18.5 miliwn mewn ymchwil gymhwysol (gan gynnwys costau staff ymchwil) er mwyn sicrhau canlyniadau defnyddiol sy'n gadarn yn wyddonol ac yn fasnachol ar gyfer talwyr yr ardoll. Mae AHDB hefyd yn cynnal rhaglenni cyfnewid gwybodaeth ar lefel fferm y bwriedir iddynt wella effeithlonrwydd, cynhyrchiant a chynaliadwyedd. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod y diwydiannau amaethyddiaeth a garddwriaeth yn gallu datblygu a denu gweithwyr â'r sgiliau sydd eu hangen.

Er enghraifft:

- **Ffermydd Monitro a Ffermydd Strategol** - rhwydwaith cenedlaethol sy'n hyrwyddo rhagoriaeth mewn ffermydd ac yn darparu dysgu o ffermwr i ffermwr
- Caiff **Rhestrau a Argymhellir** eu llunio'n flynyddol ac maent yn darparu rhestrau dewis rhywogaethau i dyfwyr ac agronomegwyr yn y sector ydau a hadau olew

3. Helpu'r diwydiant i ddeall a darparu'r hyn y bydd defnyddwyr yn ymddiried ynddo ac yn ei brynu

Mae AHDB yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu marchnadoedd allforio a marchnadoedd domestig drwy ysbrydoli defnyddwyr a rhoi gwybodaeth iddynt a helpu i addysgu plant ysgol am darddiad eu bwyd.

Er enghraifft:

- **Mynediad i'r farchnad allforio:** mae AHDB wedi chwarae rôl hollbwysig o ran darbwyllo Tsieina i godi ei gwaharddiad hirsefydlog ar gig eidion y DU a Sawdi-Arabia i godi ei gwaharddiad ar gig dafad
- **Ymgyrchoedd marchnata defnyddwyr**, sy'n cynnwys ymgyrch prydau porc canol yr wythnos sydd ar y teledu ar hyn o bryd, ac ymgyrch 'Be Scrumptious' sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth â Dairy UK.

4. Cyflawni drwy arwain a chwilio'r gorwelion

Mae gwybodaeth AHDB am farchnadoedd yn helpu busnesau i wneud penderfyniadau ac yn gwella tryloywder cadwyni cyflenwi. Mae adroddiadau 'Horizon' AHDB, ei ddiwyddiadau a gaiff eu ffrydio'n fyw a'i waith modelu a dadansoddi hefyd yn helpu'r diwydiant a'r Llywodraeth i ddeall y materion allweddol sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE a'r goblygiadau posibl i'r diwydiannau bwyd a ffermio.

Er enghraifft:

- Mae cyhoeddiadau '**Horizon**' yn cynnwys: 'The WTO and its Implications for UK Agriculture', 'Brexit Scenarios: An Impact Assessment', 'International Consumer Buying Behaviour' and 'Driving Productivity Growth Together'
- **Adnoddau ar-lein**, megis Cyfrifydd Effaith Brexit, Rhestr Wirio Cydnerthedd a Chyfrifyddion Agronomeg

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan AHDB yn www.ahdb.org.uk.

Byrddau ardoll eraill a modelau cymorth i'r diwydiant

Y tu allan i Loegr mae'r gwaith o ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch yn cael ei gyflawni gan y sefydliadau canlynol.

Quality Meat Scotland

Mae QMS yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n gwasanaethu'r diwydiant cig coch er mwyn gwella ei effeithlonrwydd a'i broffidioldeb a sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i economi'r Alban. Fe'i hariennir yn bennaf gan ardoll statudol a delir gan ffermwyr a chwmnïau prosesu ac a godir ar yr holl wartheg, defaid a moch a gaiff eu lladd yn yr Alban neu eu hallforio'n fyw, gyda chyllid ychwanegol gan aelodau'r Cynllun Gwarant Gwartheg a Defaid. Mae QMS yn canolbwyntio ar ddatblygu'r diwydiant, marchnata, cyfathrebu a sicrhau ansawdd. Ceir rhagor o wybodaeth yn <http://www.qmscotland.co.uk>.

Hybu Cig Cymru (HCC)

Mae HCC yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. HCC yw'r corff ardoll statudol ar gyfer y sector cig coch yng Nghymru ac mae hefyd yn cael rhywfaint o arian cyhoeddus. Mae'n hyrwyddo ac yn marchnata cynhyrchion cig coch Cymru yn y DU a thramor. Mae'n gweithio i wella safonau drwy ddarparu hyfforddiant, trosglwyddo technoleg a rhoi gwybodaeth i ffermwyr a chyrff eraill yn y diwydiant a thrwy waith ymchwil a datblygu. Telir yr ardoll gan y cynhyrchydd a'r lladdwr neu'r allforiwr, ac fe'i codir ar yr holl wartheg, defaid a moch a gaiff eu lladd yng Nghymru neu eu hallforio'n fyw. Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://hccmpw.org.uk>.

Noder: Ar hyn o bryd mae AHDB yn cydweithio â QMS a HCC i gyflawni prosiectau allforio, cig ac iechyd a gwybodaeth am y farchnad ar y cyd, gan ddefnyddio cronfa gwerth £2 miliwn o ardollau cig coch AHDB sydd wedi'u clustnodi. Trefniant dros dro yw hwn tra ceisir ateb hirdymor i broblem yr ardoll ar gig coch sy'n codi am fod ardollau yn cael eu casglu yn y man lladd yn Lloegr ar nifer sylweddol o anifeiliaid a gafodd eu magu yng Nghymru neu'r Alban.

Comisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon (LMC)

Mae LMC yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a ariennir yn bennaf gan ardoll statudol a gesglir yn y man lladd. Mae LMC yn cefnogi diwydiant cig eidion a chig dafad Gogledd Iwerddon drwy weithgareddau gan gynnwys: rhoi cyngor i DAERA ar ddsbarthu carcasau a gweithrediad marchnadoedd arwerthu a lladd-dai; lleadaenu gwybodaeth am brisiau a thueddiadau o ran y farchnad; gwneud ymchwil i'r farchnad; a gwella ac ehangu'r fasnach mewn da byw a chynhyrchion Gogledd Iwerddon. Mae LMC yn darparu ac yn cefnogi Cynllun Sicrhau Ansawdd Ffermydd Gogledd Iwerddon sy'n gynllun aelodaeth gwirfoddol ar gyfer y sector cig eidion a'r sector cig oed sy'n gweithredu fel rhan o Gynllun y Tractor Coch. Ceir rhagor o fanylion yn <https://www.lmcni.com/about-us/>. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyrff ardoll sectorol eraill yng Ngogledd Iwerddon, er bod amrywiaeth eang o sefydliadau cynrychioliadol a ariennir gan aelodau neu drefniadau gwirfoddol eraill.

Wrth feddwl am y dyfodol ar gyfer AHDB a'i wasanaethau, gall fod yn ddefnyddiol ystyried dulliau gweithredu sefydliadau eraill yn y DU ac mewn gwledydd eraill ledled y byd a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt. Isod ceir rhai enghreifftiau.

Ariennir **Sefydliad Ymchwil Bety's Prydain (BBRO)** gan ardoll wirfoddol a gesglir oddi wrth dyfwyr a Siwgr Prydain. Ei gylch gwaith yw cefnogi'r tyfwr a chynyddu cynnyrch drwy ddarparu gwasanaeth ymgynghori a gwneud ymchwil. Ceir rhagor o fanylion am BRO ar ei wefan yn <https://bbro.co.uk/>.

Mae **Cymdeithas Hopys Prydain (BHA)** yn gwmni cyfyngedig a ariennir gan ardoll wirfoddol a gesglir gan dyfwyr. Mae Cymdeithas Hopys Prydain yn cynnal rhaglen fridio, yn rhoi cyngor ar gynhyrchion diogelu cnydau ac yn hyrwyddo ei sector. Ceir rhagor o fanylion am Gymdeithas Hopys Prydain ar ei gwefan yn <https://www.britishhops.org.uk/>.

Mae **Cyngor Dofednod Prydain (BPC)** yn gymdeithas fasnach wirfoddol a ariennir gan danysgrifiadau'r aelodau. Mae'n cynrychioli cwmnïau sy'n ymwneud â magu a phrosesu cig dofednod yn y DU. Mae BPC yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chig dofednod gan gynnwys rheoli clefydau, stiwardiaeth wrthfotig a datblygu gyrfa. Ceir rhagor o wybodaeth ar ei wefan yn <https://www.britishpoultry.org.uk/>.

Ariennir **Sefydliad Ymchwil Proseswyr a Thyfwyr (PGRO)** gan ardoll wirfoddol, a gesglir gan farsiantdwy'r a chwmnïau cydweithredol sy'n masnachu mewn codlysiau, gyda chyllid allanol ychwanegol gan sefydliadau ymchwil a sefydliadau masnachol yn y DU, Ewrop a ledled y byd. Mae PGRO yn gwneud ymchwil gymhwysol i bys, ffa a bysedd y blaidd ac yn cynnal treialon arnynt, ac yn darparu gwasanaethau technegol i dalwyr ei ardoll. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PGRO yn <http://www.pgro.org/>.

Ariennir **Cig Eidion a Chig Oen Seland Newydd (BLNZ)** gan ardoll statudol a godir ar gynhyrchwyr ac a gesglir gan y lladd-dai. Mae BLNZ yn cynrychioli 11,500 o ffermwyr cig eidion a defaid. Mae ei weithgareddau yn cynnwys datblygu marchnadoedd, ymchwil a datblygu, trosglwyddo gwybodaeth ac arweinyddiaeth amgylcheddol. Mae BLNZ a Byrddau ardoll eraill yn Seland Newydd yn cysylltu â chynhyrchwyr a thyfwyr ym mhob sector bob chwe blynedd er mwyn gofyn iddynt gytuno â'r cynnig ar gyfer y chwe blynedd nesaf gan gynnwys cyfradd uchaf yr ardoll ar gyfer y cyfnod a'r gweithgareddau a gaiff eu hariannu ganddi. Ceir rhagor o fanylion am BLNZ ar ei wefan yn <https://beeflambnz.com/>.

Ariennir **Bwrdd Bwyd Iwerddon (Bord Bia)** yn bennaf gan grantiau ac ardollau statudol ar godir ar dda byw a gaiff eu lladd neu eu hallforio. Mae gweithgareddau Bord Bia yn cynnwys datblygu marchnadoedd, rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr, trosglwyddo gwybodaeth a sicrhau ansawdd bwyd. Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://www.bordbia.ie>.

Caiff **Cyngor Amaethyddiaeth a Bwyd Denmarc (DAFC)** ei reoli a'i ariannu gan ffermwyr a chwmnïau bwyd yn Nenmarc, yn bennaf drwy ffioedd aelodaeth a thaliadau am wasanaethau, er ei fod yn eiddo preifat. Mae DAFC yn darparu gwasanaethau i'w aelodau, yn cynnal rhaglen ymchwil a datblygu ac yn hyrwyddo diwydiannau ffermio a bwyd Denmarc. Ceir rhagor o fanylion yn <https://agricultureandfood.dk/about-us/fokus>.

Ariennir **Hort Innovation Australia** yn bennaf gan ardollau a godir ar dyfwyr gydag arian ychwanegol gan Lywodraeth Awstralia a'r diwydiant. Mae Hort Innovation yn gwneud ymchwil, yn cynnal ymgyrchoedd marchnata ac yn ymgymryd â phrosiectau i gynnal atebion ymarferol i dyfwyr. Ceir rhagor o fanylion yn <https://horticulture.com.au/>.

Ariennir **Meat and Livestock Australia Ltd (MLA)** gan ardollau a gesglir gan Adran Amaethyddiaeth Awstralia. Mae MLA yn sefydliad nid er elw ym mherchenogaeth cynhyrchwyr sy'n darparu gwasanaethau ymchwil, datblygu a marchnata i ddiwydiant cig coch Awstralia. Mae rhagor o fanylion ar gael yn <https://www.mla.com.au>.

Amdanoch chi

1. Nodwch p'un o'r canlynol sy'n disgrifio eich prif rôl neu swydd orau drwy dicio un blwch yn y tabl.

Ffermwr, cynhyrchydd neu dyfwr	
Prosesydd neu brynwr	
Unigolyn arall	
Busnes arall Nodwch y math o fusnes sydd gennych	
Sefydliad arall gan gynnwys sefydliadau aelodaeth, sefydliadau anllywodraethol Rhowch enw'r sefydliad	

2. Nodwch ble rydych chi wedi'ch lleoli neu ble mae eich busnes neu'ch sefydliad wedi'i leoli drwy dicio un blwch yn y tabl.

Dwyrain Lloegr	
Dwyrain Canolbarth Lloegr	
Llundain	
Gogledd-ddwyrain Lloegr	
Gogledd-orllewin Lloegr	
De-orllewin Lloegr	
De-orllewin Lloegr	
Gorllewin Canolbarth Lloegr	
Swydd Efrog a Humber	
Gogledd Iwerddon	
Yr Alban	
Cymru	
Arall - Nodwch	

3. A ydych yn talu ardoll AHDB ar hyn o bryd?

Ydw	
Nac ydw	

Os ydych, dewiswch y sector(au) rydych yn talu'r ardoll ynndo/ynddynt ar hyn o bryd drwy dicio un blwch neu fwy yn y tabl.

Porc	
Cig Eidion	
Cig Oen	
Y Sector Llaeth	
Tatws	
Ydau	
Hadau olew	
Garddwriaeth - Madarch	
Garddwriaeth - Bylbiau a blodau maes	
Garddwriaeth - Cynnyrch bwydwy a warchodir	
Garddwriaeth - Ffrwythau meddal	
Garddwriaeth - Cnydau arddurnol a warchodir	
Garddwriaeth - Llysiau cae	
Garddwriaeth - Ffrwythau coed	
Garddwriaeth - Stoc meithrinfa galed	
Garddwriaeth - Arall	
Nodwch	

4. Nodwch p'un o'r bandiau maint canlynol sy'n adlewyrchu eich trosiant blynyddol orau drwy dicio un blwch yn y tabl (wrth drosiant rydym yn golygu gwerth eich allbwn gan gynnwys unrhyw daliadau amaeth-amgylcheddol ac uniongyrchol).

<£60,000	
£60,000 - £100,000	
£101,000 – 200,000	
£201,000 – 300,000	
£301,000 - £500,000	
£501,000 - £999,000	
£1 miliwn - £5 miliwn	
>£5 miliwn	
Ddim yn gymwys	

5. Mae'r cwestiynau canlynol yn holi am eich prif sector(au). Nodwch yma y prif sector(au) yr hoffech ymateb yn ei gylch/eu cylch drwy dicio un neu fwy o flychau. Cewch gyfle i esbonio lle y byddech yn rhoi ymateb gwahanol i gwestiwn ar gyfer sector gwahanol.

Porc (Lloegr)	
Cig Eidion (Lloegr)	
Cig Oen (Lloegr)	
Y Sector Llaeth (Prydain Fawr)	
Tatws (Prydain Fawr)	
Ydau (y DU)	
Hadau Olew (y DU)	
Garddwriaeth (Prydain Fawr)	
Arall Nodwch	

6. A hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol?

Ydw	
Nac ydw	

Os mai 'Hoffwn' oedd eich ateb i 'r cwestiwn hwn, esboniwch pam.

Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r cais hwn am sylwadau ar wefan y Llywodraeth yn: www.gov.uk. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o sefydliadau a enwir sydd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt. Bydd yr ymatebion ar gael i Adrannau eraill o'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Os byddwch yn clicio ar 'Hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol ac esbonio pam. Rydym yn gofyn i chi wneud hyn am ei bod yn bosibl y caiff gwybodaeth mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei rhyddhau i'r cyhoedd neu bartïon eraill yn unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (sy'n cynnwys yn bennaf Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018). Mae rhwymedigaethau arnom, yn bennaf o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd o dan amgylchiadau penodol. Bydd eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am i ran neu'r cyfan o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn i ddatgelu gwybodaeth ag unrhyw rwymedigaeth sy'n ymwneud â chyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais am y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ond ni allwn warantu y byddwn yn gallu ei gadw'n gyfrinachol ar bob achlysur.

Os byddwch yn clicio ar 'Na hoffwn' mewn ymateb i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw beth yn eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd, heb unrhyw fanylion cyswllt preifat.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych a gallwch weld Siarter Gwybodaeth Personol Defra, sy'n rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin eich data personol, drwy fynd i:

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>.

Mae'r ymarfer hwn yn cael ei gynnal yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>. Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y cais hwn am sylwadau, dylech eu hanfon at:

Consultation Co-ordinator
Area 1C, 1st Floor
Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

Neu anfonwch neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gsi.gov.uk.

Adran 1: Dibenion a gweithgareddau AHDB

1. Nodwch p'un o'r canlynol sy'n disgrifio eich barn bresennol am AHDB orau drwy dicio un bwlch yn y tabl.

Cadarnhaol iawn	
Cadarnhaol ar y cyfan	
Ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol	
Negyddol ar y cyfan	
Negyddol iawn	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

2. Ar hyn o bryd mae gan AHDB bedwar diben neu nod a nodir yng Ngorchymyn y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008:

- (a) cynyddu effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn y diwydiant
- (b) gwella gweithgarwch marchnata yn y diwydiant
- (c) gwella neu ddatblygu gwasanaethau y mae'r diwydiant yn eu darparu, neu y gallai eu darparu, i'r gymuned
- (d) gwella'r ffyrdd y mae'r diwydiant yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy

Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno y dylai unrhyw un o'r rhain fod yn nodau â blaenoriaeth ar gyfer ardoll y Bwrdd yn y dyfodol, drwy dicio'r blychau priodol yn y tabl.

Nodau â blaenoriaeth ar gyfer ardoll y Bwrdd yn y dyfodol	Cytuno'n gryf y dylai fod yn flaenoriaeth	Cytuno y dylai fod yn flaenoriaeth	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno y dylai fod yn flaenoriaeth	Anghytuno'n gryf y dylai fod yn flaenoriaeth	Ddim yn gwybod	Dim barn
(a) Effeithlonrwydd a chynhyrchiant							
(b) Marchnata							
(c) Gwasanaethau i'r gymuned							
(d) Datblygu cynaliadwy							

3. Esboniwch os oes unrhyw beth arall a ddylai fod yn nod â blaenoriaeth ar gyfer ardoll y Bwrdd yn y dyfodol, yn eich barn chi

4. Ar hyn o bryd mae AHDB yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol ar gyfer ei sectorau.

- (a) Ymchwil (e.e. rhaglenni gwella genetig ac ymchwil wedi'i thargedu i blâu, chwyn a chlefydau mewn cnydau)
- (b) Cyfnewid gwybodaeth (e.e. ffermydd monitro a ffermydd strategol, cefnogi dysgu ffermwr i ffermwr a meincnodi)
- (c) Datblygu marchnadoedd (gan gynnwys marchnata a hysbysebu sy'n cwmpasu gwaith datblygu masnach, addysg, iechyd a maeth e.e. ymgyrch prydau porc canol yr wythnos ar y teledu, ymgyrch 'Be scrumptious' y sector llaeth)
- (d) Datblygu allforion a mynediad i farchnadoedd - gweithio gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth i sefydlu allforion (e.e. helpu i agor marchnad cig eidion Tsieina a marchnad cig dafad Sawdi-Arabia i allforion)
- (e) Gwybodaeth am farchnadoedd a dadansoddi marchnadoedd (e.e. mewnbwn amaethyddol a gwybodaeth am y farchnad)
- (f) Cyfathrebu, digidol a chreadigol (e.e. cyhoeddi rhestrau a argymhellir, trefnu gweithdai a chynadleddau, darparu adnoddau ar-lein a gwaith sy'n ymwneud â'r cyfryngau gan gynnwys cywiro gwallau ffeithiol)

Ar gyfer pob gweithgaredd, nodwch p'un a ddylai AHDB, yn eich barn chi, wneud mwy, yr un peth neu lai yn eich sector(au) dros y pum mlynedd nesaf drwy dicio'r blychau priodol yn y tabl.

Lefel o weithgarwch yn y dyfodol	Gwneud mwy	Gwneud ychydig yn llai	Gwneud yr un peth	Gwneud llai	Gwneud llawer llai	Rhoi'r gorau i'w wneud	Ddim yn gwybod	Dim barn
(a) Ymchwil								
(b) Cyfnewid gwybodaeth								
(c) Datblygu marchnadoedd								
(d) Datblygu allforion								
(e) Gwybodaeth am farchnadoedd								
(f) Cyfathrebu								

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

5. Ar hyn o bryd mae AHDB yn darparu gwasanaethau i sectorau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU. Gellid ehangu'r gwasanaethau hyn yn ystod y pum mlynedd nesaf neu dros gyfnod hwy, os oes achos cryf dros wneud hynny. Dyma rai awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid defnyddio'r ardoll statudol:

- (a) Hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol a helpu'r sectorau i ateb heriau megis allyriadau, llygredd, y defnydd o faethynnau a newid yn yr hinsawdd
- (b) Cydgysylltu gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth, gan sicrhau mai hwn yw'r lle "amllwg" i gael gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio o ran arloesi, sgiliau a thechnegau
- (c) Ariannu rôl fwy sylweddol wrth ddal, rheoli, dadansoddi a chyhoeddi data ar gyfer y diwydiant
- (d) Ariannu rôl arwain fwy blaenllaw wrth reoli clefydau endemig mewn da byw yn Lloegr
- (e) Helpu sectorau i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gadael yr UE

Rhowch eich barn ar yr awgrymiadau hyn drwy dicio'r blychau priodol yn y tabl.

Gwasanaethau newydd neu estynedig a awgrymir	Eu hystyried yn bendant	Gwerth ymchwilio iddynt	Na, fwy na thebyg	Na, dim o gwbl	Ddim yn gwybod	Dim barn
(a) Cynaliadwyedd amgylcheddol						
(b) Hwb gwybodaeth						
(c) Rheolwr data						
(d) Rheoli clefydau						
(e) Cymorth gadael yr UE						

6. Pe bai AHDB yn darparu un gweithgaredd newydd ar gyfer eich sector(au) nas rhestrir yn y cwestiwn uchod, beth ddylai fod?

Esboniwch eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

Adran 2: Llywodraethu

Cynrychiolaeth Talwyr yr Ardoll

Mae gan AHDB Fwrdd Sector ar gyfer pob un o'i chwe sector. Mae Cadeiryddion y Byrddau Sector yn aelodau o brif Fwrdd AHDB ac fe'u penodir gan Ysgrifennydd Gwladol Defra gyda chymeradwyaeth gweinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae aelodau eraill y Byrddau Sector yn cynnwys talwyr yr ardoll, rhanddeiliaid eraill o'r sectorau ac aelodau annibynnol, sydd oll yn cael eu penodi gan AHDB drwy broses recriwtio agored.

Mae pob Bwrdd Sector yn gyfrifol am ddatblygu strategaethau i ateb yr heriau sy'n wynebu'r sector; sicrhau bod cyfradd yr ardoll yn ddigonol i ariannu'r gwaith; monitro'r gwaith o roi'r strategaeth ar waith; a gweithredu pan fydd perfformiad yn gwyro oddi wrth yr hyn a fwriadwyd.

Mae AHDB yn ceisio barn rhanddeiliaid ar ei weithgareddau drwy'r Byrddau Sector a thrwy gynnal ymgynghoriadau megis yr un ar ei Strategaeth Tair Blynedd, ac mae'n cynnal arolygon boddhad blynyddol.

O dan ei delerau statudol mae'n ofynnol i AHDB gynnal pleidlais ynglŷn â ph'un a ddylai ardoll unigol barhau os bydd yn derbyn, o fewn cyfnod o dri mis, geisiadau i gynnal pleidlais ar yr ardoll

honno sydd wedi'u llofnodi gan o leiaf 5% o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio mewn pleidlais o'r fath o fewn cyfnod o dri mis calendr olynol.

7. A ddylai talwyr yr ardoll gael cyfle i bleidleisio bob pum mlynedd ar b'un a ddylai'r ardoll statudol yn eu sector barhau? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Dylai	
Na ddylai	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

8. Yn eich barn chi, a ddylai fod gan dalwyr yr ardoll o'ch sector(au) gynrychiolaeth yhwanegol? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Dylai	
Na ddylai	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

Y Ffordd y Caiff AHDB ei Lywodraethu

Mae AHDB yn gorff cyhoeddus anadrannol sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth weinidogion y llywodraeth. Mae bwrdd AHDB yn cynnwys y Cadeirydd a naw aelod mae chwe aelod yn arbenigwyr o'r diwydiant ac mae ganddynt y cyfrifoldeb ychwanegol i weithredu fel Cadeirydd y chwe Bwrdd Sector. Mae tri yn aelodau annibynnol o'r bwrdd nad ydynt yn dod o sectorau penodol ac sy'n dod â sgiliau ehangach megis arbenigedd gwyddonol. Mae'r prif fwrdd a phob Bwrdd Sector yn cynnal cyfarfodydd drwy gydol y flwyddyn ac mae ganddynt wahanol bwyllgorau sefydlog ac is-bwyllgorau sy'n atebol iddynt.

Mae gan gyrrff cyhoeddus anadrannol eraill drefniadau gwahanol o ran eu byrddau. Mewn rhai, mae'r prif fwrdd yn cynnwys aelodau annibynnol yn unig, sy'n arbenigwyr mewn meysydd cyffredinol (e.e. cyfathrebu, cyllid, gwyddoniaeth amgylcheddol neu amaethyddol, manwerthu, polisi ffermio) heb unrhyw arbenigedd mewn sectorau penodol. Mae pob rôl ar y bwrdd yn canolbwyntio ar lywio a goruchwyllo cynlluniau strategol y sefydliad. Cyflwynir arbenigedd sectorau drwy bwyllgorau a gweithgorau sy'n atebol i'r bwrdd, gan roi cyngor a chomisiynu ymchwil. Mae hyn yn golygu bod llai o gysylltiad uniongyrchol rhwng y prif fwrdd a chynrychiolwyr sectorau ond gall gynyddu gallu'r bwrdd i ganolbwyntio ar risgiau a chyfleoedd strategol.

9. A yw strwythur presennol bwrdd AHDB, y Byrddau Sector a'r pwyllgorau yn diwallu anghenion talwyr yr ardoll? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Ydy	
Nac ydy	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

Adran 3: Cyllid

Nodir prif weithgareddau a gwariant wedi'i gyllidebu AHDB yn y tabl below⁶. Ariennir 90% o'r gwariant gan yr ardoll statudol.

Cyllideb 2018/19							
Gweithgaredd	Cig Eidion a Chig Oen	Porc	Ydau	Tatws	Llaeth	Garddwriaeth	Cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd fesul gweithgaredd
	£ million	£ million	£ million	£ million	£ million	£ million	£ million
	(% cyllideb y sector)	(% cyllideb y sector)	(% cyllideb y sector)	(% cyllideb y sector)	(% cyllideb y sector)	(% cyllideb y sector)	(% cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd)
Ymchwil	3.2	1.3	4.6	2.3	1.9	5.2	18.5
	17%	13%	37%	32%	20%	57%	27%
Cyfnewid gwybodaeth	1.5	1.5	2.4	1.1	2.4	1.5	10.5
	8%	14%	20%	15%	26%	16%	16%
Datblygu marchnadoedd (gan gynnwys marchnata a hysbysebu)	3.4	3.3	0.2	1.0	1.7	0.1	9.8
	18%	32%	2%	14%	18%	1%	14%
Datblygu allforion a mynediad i farchnadoedd	5.8	1.0	0.6	0.3	0.3	0.02	8.1
	30%	10%	5%	4%	3%	0%	12%
Gwybodaeth am farchnadoedd a dadansoddi marchnadoedd	1.4	0.7	1.0	0.6	0.7	0.1	4.7
	7%	7%	8%	8%	8%	1%	7%
Cyfathrebu, digidol a chreadigol	2.1	1.3	1.8	0.8	1.0	1.0	8
	11%	13%	15%	11%	11%	11%	12%
Costau cymorth	1.7	1.3	1.6	1.2	1.2	1.2	8.2
	9%	13%	13%	16%	13%	13%	12%
CYFANSWM £ million	19.1	10.4	12.3	7.3	9.3	9.1	67.7

Noder: Mae Cyfathrebu, digidol a chreadigol yn cynnwys llunio a lledaenu gwybodaeth, gan gynnwys cyhoeddi, trefnu cynadleddau a gweithdai, y wasg, gwaith sy'n ymwneud â'r cyfryngau ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, ac adnoddau ar-lein a gwefannau. Mae costau cymorth yn feysydd sy'n helpu i redeg AHDB megis rhent, ardrethi, cyllid a TG.

10. A ddylai AHDB barhau i weithredu ardoll statudol er mwyn ymgymryd â gweithgareddau yn eich sector(au)? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Dylai	
Na ddylai	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

⁶ Ffynhonnell: AHDB. Noder: efallai na fydd y ffigurau yn gwneud cyfanswm cywir oherwydd talgrynnu.

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

11. Pe na bai AHDB yn darparu'r gwasanaethau a ddangosir yn nhabl y gyllideb uchod drwy'r ardoll, beth y byddai'n hanfodol ei brynu neu ei gaffael rywle arall, yn eich barn chi? Ticiwch y blychau priodol yn y tabl.

Gwasanaethau a ariennir ar hyn o bryd gan yr ardoll	Byddwn yn ei brynu rywle arall	Byddwn yn dod o hyd iddo am ddim rywle arall	Ni fyddwn yn ei gael	Ddim yn gwybod	Dim barn
Ymchwil					
Cyfnewid gwybodaeth					
Datblygu marchnadoedd					
Datblygu allforion					
Gwybodaeth am farchnadoedd					
Cyfathrebu					

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

12. Sut yr hoffech weld gwasanaethau AHDB i'ch sector(au) yn cael eu hariannu?

(a) Drwy barhau â'r ardoll statudol

(b) Drwy ardoll wirfoddol (mae'n debygol y byddai hyn yn golygu llai o gyfranwyr, felly byddai llai o arian ar gael i'w wario, gan dargedu'r budd i'r cyfranwyr gwirfoddol a heb gynnwys eraill)

(c) Drwy godi tâl (mae hyn yn golygu y byddai busnesau unigol yn talu am yr union wasanaethau y maent am eu prynu. Mae hyn yn awgrymu, o bosibl, wasanaethau unigol neu wasanaethau grŵp caeedig na all busnesau eraill fanteisio arnynt)

(d) Drwy ddull arall

Ticiwch y blychau priodol yn y tabl.

Ffyrdd o ariannu gwasanaethau	Cefnogi'n gryf	Cefnogi	Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn
(a) Ardoll statudol							
(b) Ardoll wirfoddol							
(c) Codi tâl							
(d) Dull arall							

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb uchod yn fanylach gan gynnwys pa 'Dull arall' yr hoffech ei weld yn cael ei ddefnyddio, os oes un, a ph'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol

13. Os bydd ardoll statudol yn parhau yn eich sector(au), a ydych o'r farn bod y busnesau cywir yn talu'r ardoll heddiw? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

14. Ar hyn o bryd mae AHDB yn cynrychioli chwe sector: Porc, Cig Eidion a Chig Oen yn Lloegr; Llaeth, Tatws a Garddwriaeth ym Mhrydain Fawr; ac Ydau a hadau olew yn y DU.

Yn eich barn chi, a ddylai unrhyw sector/is-sector arall neu unrhyw sectorau/is-sectorau eraill gael eu cefnogi gan AHDB drwy system ardoll statudol? Ticiwch un blwch yn y tabl.

Dylai	
Na ddylai	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

Adran 4: Casglu'r ardoll

Ariennir AHDB yn bennaf drwy ardollau statudol gyda mannau casglu gwahanol a seiliau gwahanol ar gyfer cyfrifo'r ardoll ar draws sectorau. Hoffem glywed eich barn ar b'un a fyddai trefniadau gwahanol yn fwy addas i'ch sector(au) yn y dyfodol. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys newid y sail ar gyfer cyfrifo'r ardoll (e.e. fesul anifail a gaiff ei ladd, fesul tunnell a gaiff ei gwerthu/prynu, fesul litr) a/neu newid y pwynt yn y gadwyn gyflenwi lle y cesglir yr ardoll (e.e. adeg gwerthu am y tro cyntaf, adeg y cyswllt cyntaf ag AHDB neu gorff cyhoeddus arall, pan gaiff da byw eu cofrestru am y tro cyntaf).

**15. A ydych yn fodlon ar y man casglu presennol ar gyfer yr ardoll yn eich sector(au)?
Ticiwch un blwch yn y tabl.**

Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

16. A ydych yn fodlon ar y sail bresennol ar gyfer cyfrifo'r ardoll ar gyfer eich sector(au)
(megis fesul anifail a gaiff ei ladd, fesul tunnell a gaiff ei gwerthu/prynu, fesul hectar a gaiff ei blannu, canran y trosiant, fesul litr)? **Ticiwch un blwch yn y tabl.**

Ydw	
Nac ydw	
Ddim yn gwybod	
Dim barn	

Defnyddiwch y gofod hwn i esbonio eich ateb yn fanylach, gan gynnwys p'un a yw eich barn yn wahanol ar gyfer sectorau gwahanol.

Diolch am roi eich barn i ni